# Naw Llith a Charol

## Arweiniad i'r Gwasanaeth

**Defnyddiwch hwn fel arweiniad i gynllunio eich gwasanaeth Naw Llith a Charol.**

**Mae'r arweiniad hwn yn cynnig amrywiaeth o fyfyrdodau sydd wedi'u seilio ar waith Cymorth Cristnogol yn 2025, gyda phwyslais arbennig ar Weriniaeth Ddemocrataidd Congo.**

**Rydym wedi awgrymu carolau a darlleniadau y gellid eu cynnwys ond mae croeso i chi ddewis rhai gwahanol, fel y bydd yn briodol i'ch lleoliad.**

## Carol: Tyrd, Tyrd Emanuel



**Gweddi**

Mae cariad yn amyneddgar.

Ond mae cyfiawnder yn ysu wrth aros.

Ac felly mae cariad a chyfiawnder law yn llaw, yn anwahanadwy ac wedi ymrwymo i'w gilydd.

Gyda'i gilydd maent yn rym cryf.

Wrth inni aros am y diwrnod pan fyddwn yn dathlu genedigaeth Iesu, gadewch inni weddïo gyda'n gilydd y bydd cariad a chyfiawnder yn cael eu hymgorffori ynom, fel y maent yn y plentyn yr ydym yn aros amdano.

Duw digonedd, ti yw'r 'Myfi' Mawr na ellir ei gyfyngu.

Arllwys dy Ysbryd ar ein cynulliad, ar ein cofio, ac ar ein haros.

Deled dy Deyrnas gariadus a chyfiawn, gwneler dy ewyllys.

Wrth i dy Fab Ymgnawdoledig ddod i'n plith, boed inni gael ein hadnewyddu, yn barod i dy wasanaethu di ac ein gilydd.

**Amen.**

**Llith 1: Genesis 4:3-16**

Eleni mae gwrthdaro ym mhob rhan o'r byd. Rydym wedi gweld trais dinistriol yn y Dwyrain Canol lle ganwyd Iesu. Sut allwn ni ymateb i erchyllterau rhyfel a'r modd y mae'n gwawdio ein dynoliaeth gyffredin?

Rhaid inni wrando ar stori Cain.

Ni all Cain byth fynd yn ôl adref. Crwydro fydd ei dynged. Trais, casineb, dicter a rhagfarn – maent i gyd yn gwneud inni golli ein hunain a cholli ein cysylltiadau â'n gilydd. Maent yn ein gadael i grwydro, ar ein pen ein hunain.

Heddiw, gweddïwn am heddwch, am ddiwedd ar grwydro a cholled. Gweddïwn am ddiogelwch a sicrwydd i blant Duw. Gweddïwn dros waith Cymorth Cristnogol a'u partneriaid gwerthfawr, wrth iddynt helpu lle bynnag mae gwrthdaro. Galluoga ni i gefnu ar drais a throi at heddwch.

## Carol: Draw yn ninas Dafydd

**Llith 2: Salm 42**

Mi all fod yn anodd dod o hyd i heddwch. Mae'r Salm yn galw arnom i ddyfalbarhau mewn ffydd a gobaith, ac ymddiried yn nycnwch y Duw byw.

Yng Ngweriniaeth Ddemocrataidd Congo mae Uwch Swyddog Rhaglenni Cymorth Cristnogol, Obed Buhendwa, yn deall pwysigrwydd gobaith. 'Rydym yn wynebu sefyllfa o argyfwng difrifol iawn', meddai 'lle mae miliynau o bobl, yn enwedig menywod a phlant, yn cael eu heffeithio.'

Ond eto, nid yw Obed yn anobeithio. 'Rwyf yn credu', meddai, 'ac rwyf yn credu bod gobaith yn ein cadw'n fyw. Rwyf yn dal i obeithio y gall bywyd yma yng Ngweriniaeth  Ddemocrataidd Congo wella… bod diwedd i ryfel yn bosibl.'

Mae Obed yn bendant na all ef a'i gydweithiwr wneud y gwaith ar eu pen eu hunain. Mae ganddo neges i gefnogwyr Cymorth Cristnogol yn y DU: 'Rydym yn dibynnu ar gefnogaeth ryngwladol i gadw ein gobeithion yn fyw … Rydym yn

erfyn ar bawb i alw am heddwch yn Congo, fel y daw'r rhyfel i ben ac y gall pobl y wlad fyw eu bywydau ag urddas.'

## Carol: O deuwch, ffyddloniaid

**Llith 3: Micha 6:6-12**

Byddwch yn Gyfiawn yn eich Gweithredoedd. Carwch Drugaredd. Cerddwch yn Ostyngedig. A ydym ni'n dilyn galwad Duw am gyfiawnder, tosturi a gwyleidd-dra? Pwy sydd wedi ein hysbrydoli wrth inni gerdded gyda'n gilydd?

Eleni bu farw cyn Bennaeth Christian Aid Scotland, y Parchedig Kathy Galloway. Roedd Kathy yn ymgyrchydd brwd ac ymroddgar dros urddas a chydraddoldeb i bawb. Roedd hi'n arwain drwy esiampl, gan roi ei ffydd ar waith bob dydd. Dangosodd ymrwymiad gydol oes i helpu pobl sy'n byw mewn tlodi.

Dros y Nadolig, rydym yn cofio ac yn diolch am yr holl bobl sydd wedi teithio gyda ni ac sydd wedi ein gadael. Rydym yn rhoi gerbron Duw'r rhai rydym yn eu caru ac yn eu colli.

Wrth inni weddïo dros y rhai sydd wedi goleuo ein llwybr, rydym yn canu'r emyn Nadoligaidd a gyfansoddwyd gan Kathy Galloway.

## Carol: Pan aned gynt mewn tlodi

**Llith 4: Eseia 61:1-4**

Mae Chance yn byw yng Ngweriniaeth Ddemocrataidd Congo gyda'i phlant ifanc. Ym mis Chwefror eleni bu gwrthdaro arfog yn ei chymuned, gan ei gorfodi i ffoi o'i chartref. Roedd Chance newydd esgor ac roedd yn gafael yn ei baban newydd-anedig gyda'i phlant eraill o'i chwmpas. Arhosodd ei gŵr ar ôl ac nid yw wedi clywed dim amdano ers hynny.

Yn ddewr iawn, ceisiodd Chance gyrraedd diogelwch cymharol Gwersyll Katashola ar gyfer pobl sydd wedi'u dadleoli. Ond mae prinder difrifol yn y gwersyll. Mae ei phlant yn llwglyd, ac mae perygl mawr o newyn a malaria.

Mae Chance yn poeni y bydd cysgod gwrthdaro dros ddyfodol ei phlant. Ond eto mae hi'n gobeithio am ddyfodol gwahanol. Dywedodd wrth Gymorth Cristnogol ei bod yn breuddwydio y bydd ei babi newydd yn tyfu i fod yn 'newyddiadurwr a fydd yn adrodd y newyddion i'r holl fyd'. Mae Chance yn arwain y ffordd drwy adrodd stori ei phrofiad i sicrhau newid parhaol.

Mae partneriaid Cymorth Cristnogol yn darparu cymorth ariannol i Chance a theuluoedd eraill tebyg fel y gallant warchod eu hunain a'u plant rhag newyn a salwch. Mae'r grantiau ariannol hyn yn cynnig dewis, gobaith ac urddas i bobl sydd wedi colli cymaint.

## Carol: O dawel ddinas Bethlehem

**Llith 5: Luc 1:46-55**

Mae Joyce, mam i bedwar sy'n ffermio yng Ngweriniaeth Ddemocrataidd Congo wedi wynebu heriau na allwn ni yma eu dychmygu. Cyrhaeddodd yr ymladd pentref ei theulu pan oedd ei phlentyn ieuengaf, Emiliana, yn ddim ond deufis oed. Gorfodwyd Joyce a'i theulu i ffoi a chuddio mewn coedwig gyfagos. 'Roedd gen i ofn ac roeddwn yn meddwl: A ydw i'n mynd i farw? A fydd fy mhlant yn marw hefyd?,' meddai wrth Gymorth Cristnogol. Yn y diwedd llwyddodd y teulu i gyrraedd Gwersyll Bulengo ond roedd yn rhaid iddynt wynebu newyn a syched yn y gwersyll.

Mae Cymorth Cristnogol yn helpu pobl yng Ngweriniaeth Ddemocrataidd Congo i gael bywyd newydd wrth iddynt aros i'r rhyfel ddod i ben. Mae teulu Joyce wedi gallu dychwelyd adref ac mae Joyce wedi cael help i barhau i ffermio. Mae ganddi lawer o obeithion i Emiliana. Mae hi'n gobeithio y bydd Emiliana yn mynd i'r ysgol, mae hi'n 'caru dysgu' ac yn byw bywyd llawn. Ar ôl i'r teulu ddychwelyd adref, meddai Joyce wrth Gymorth Cristnogol, 'mi gawsom ddathliad bychan, cawsom fwyd, ac mi ddaeth y cymdogion draw a gweld y babi.'

## Carol: Ganol Gaeaf Noethlwm

**Llith 6: Luc 2:1-7**

Yn ystod y tymor hwn rydym yn myfyrio ar y rhoddion rydym yn eu rhoi i'n gilydd. Mae effaith rhai o'r rhoddion yn mynd y tu hwnt i'r hyn a ddychmygwyd.

Roedd Beryl yn un o gefnogwyr Cymorth Cristnogol. Wedi ei geni yn 1927, bu'n gweithio fel nyrs a bydwraig am flynyddoedd lawer yn gofalu am ei chleifion. Yn ddiweddarach yn ei bywyd , dangoswyd cariad a charedigrwydd tuag ati hithau ar ôl llawdriniaeth ar ei llygad, gan nyrs a oedd yn dod o Affrica'n wreiddiol. Roedd y rhodd hwnnw o garedigrwydd wedi golygu cymaint i Beryl nes iddi benderfynu cofio gwaith Cymorth Cristnogol yn Affrica yn ei hewyllys. Yn awr mae rhodd Beryl yn darparu gofal iechyd, yn enwedig gofal mamolaeth i famau beichiog, yn Sierra Leone, Burundi, a De Sudan.

Wrth inni gofio geni Iesu, rydym yn ddiolchgar i bobl fel Beryl, sy'n newid bywydau babanod sy'n cael eu geni heddiw ym mhob rhan o'r byd.

## Carol: Gwelwch faban ar ei wely gwair

**Llith 7: Luc 2:8-20**

Mae cymunedau bugeiliol ac amaethyddol heddiw'n dal i fyw'n agos at y ddaear, gan ymateb i batrymau a rhythmau naturiol. Mae'r argyfwng hinsawdd yn amharu ar y rhythmau hyn ac ar fywoliaeth llawer o bobl. Mae da byw'n cael eu colli, llifogydd yn boddi tir amaethyddol, sychder yn dinistrio cnydau, neu gartrefi'n cael eu dinistrio, o ganlyniad i'r argyfwng hinsawdd sy'n dinistrio cymunedau ledled y byd.

Mae Ymgyrch Adfer Cymorth Cristnogol yn eich gwahodd i ymuno yng ngwaith Duw i adfer creadigaeth, wrth inni fynd i'r afael â'r argyfyngau hinsawdd a dyledion anghyfiawn. Rydych yn sefyll ochr yn ochr â'r rhai sy'n brwydro yn

erbyn tlodi a systemau anghyfiawn. Gallwn newid systemau annheg a sicrhau bod lleisiau ein cymdogion byd-eang yn cael eu clywed.

## Carol: Dawel nos

### Llith 8: Mathew 2:1-12

Mae Efengyl Mathew yn dangos inni sut y gall pŵer gael ei ddefnyddio i fygwth, i gau allan, neu hyd yn oed i ddinistrio eraill.

Heddiw, mae mwy na 70 miliwn o bobl ar draws y byd wedi'u dadleoli o fewn eu gwlad eu hunain. Mae pŵer yn cael ei ddefnyddio mewn ffordd anghyfiawn a threisgar i orfodi pobl i adael eu cartrefi. Mae pobl sydd wedi'u dadleoli'n aml yn symud i fannau sy'n anodd i gymorth dyngarol eu cyrraedd, sy'n golygu eu bod ymhlith y grwpiau mwyaf agored i niwed yn y byd. Wrth inni fyfyrio ar y camddefnydd o bŵer yr oedd Iesu wedi'i wynebu o ddiwrnod ei eni, cofiwch am y miliynau o bobl sy'n byw heddiw mewn ofn, ansicrwydd, ac ansefydlogrwydd.

Yng Ngweriniaeth Ddemocrataidd Congo, mae partneriaid Cymorth Cristnogol yn gweithio i warchod a grymuso cymunedau sydd wedi'u heffeithio gan ddadleoliad, i adfer eu rhyddid, eu galluogi i wneud eu dewisiadau eu hunain ac i amddiffyn eu hawliau.

## Carol: I orwedd mewn preseb

### Llith 9: Ioan 1:1-4

Mae cariad a chyfiawnder law yn llaw.

Ac mae'r byd yn dal ei anadl.

Mae'r Nadolig yn dod, mae Ymgnawdoliad yn agos – y saib disgwylgar cyn y gri a'r anadliad a'r bywyd newydd.

Wrth inni aros am y diwrnod pan fyddwn yn dathlu genedigaeth Iesu, gadewch inni weddïo gyda'n gilydd y bydd cariad a chyfiawnder yn cael eu hymgorffori ynom, fel yr oeddent yn y plentyn yr ydym yn aros amdano.

Dyma hanes y plentyn a fydd yn newid ein byd, ond bod ei fodolaeth yn cael ei fygwth gan gyfundrefnau gormesol, gan dlodi a brwydrau byd ansicr. Ni allai'r byd hwnnw ddod o hyd i le iddo ef a'i deulu. A allwn ni ddod o hyd i le iddo heddiw?

Gweddïwn unwaith eto:

Dduw llawn digonedd, ti yw'r 'Myfi' Mawr na ellir ei gyfyngu.

Arllwys dy Ysbryd ar ein cynulliad, ar ein cofio, ac ar ein haros.

Deled dy Deyrnas gariadus a chyfiawn, gwneler dy ewyllys.

Wrth i dy Fab Ymgnawdoledig ddod i'n plith, boed inni gael ein hadnewyddu, yn barod i dy wasanaethu di ac ein gilydd.

Amen.

## Carol: Ar gyfer heddiw'r bore



**Gweddi i Gloi**

Dduw cariad a chyfiawnder,
A anwyd i gwpwl ar y cyrion, a orfodwyd i symud o le i le;

Duw a wnaed yn gnawd, a roddwyd i orwedd mewn preseb,

Cyhoeddwyd dy ddyfodiad o'r nefoedd i'r bugeiliaid yn y meysydd.

Dduw Ymgnawdoledig,
Rydym yn rhyfeddu at y modd yr wyt yn ymddangos
Mewn mannau annisgwyl;



Yn ein dathliadau, helpa ni i gofio ein cymdogion,

Ar ochr arall y stryd, ac ar draws y byd.

Bydd yn bresennol gyda'r sawl
sy'n dyheu am ac sy'n gweithio am
Fywyd llawn, heb dlodi.

Gwna ni'n ddiamynedd
yn ein hymdrechion dros gyfiawnder

A dyro inni amynedd wrth inni garu ein gilydd.

Amen

## Carol: Clywch, lu'r nef yn seinio'n un